## ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae'r contract presennol ar gyfer meddygon preswyl a deintyddion yng Nghymru dros 20 oed ac nid yw'n adlewyrchu arferion gwaith diogel a modern, anghenion addysgol a hyfforddiant a'r ffordd orau o gyflenwi gwasanaethau. Nododd gwaith cwmpasu blaenorol ar gyfer trafodaethau yn 2021 a 2022 nad yw'r contract presennol yng Nghymru bellach yn addas i'r diben.

Yn 2023/24 fel rhan o'r dyfarniad cyflog, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i ailgychwyn negodiadau am y contract. Comisiynodd mandad ffurfiol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025 gyflogwyr GIG Cymru a BMA Cymru i ddechrau trafodaethau ac i gytuno ar gynnig ar gyfer diwygio'r contract, gan ddefnyddio negodiadau blaenorol ar y contract a gynhaliwyd yn 2022 gyda ffocws ar wella meysydd lle mae angen newidiadau, i sicrhau cefnogaeth meddygon preswyl a deintyddion.

Mae'r Mandad yn nodi mai nod cyffredinol diwygio yw cytuno ar gynnig ar y cyd ar gyfer telerau ac amodau diwygiedig, graddfeydd cyflog a diwygiadau ychwanegol i amodau gwaith a hyfforddiant meddygon preswyl a deintyddion gyda'r nod o wneud GIG Cymru yn gyflogwr delfrydol.

Daeth y partïon i gytundeb ar gynigion ar gyfer pontio aml-flwyddyn yn cwmpasu'r cyfnod Awst 2026 i Awst 2028. Mae’r newidiadau allweddol yn cynnwys:

- System newydd ar gyfer tâl a chynnydd
- Cefnogi iechyd a llesiant drwy oriau gwaith diogel
- Cynnal amodau hyfforddiant a gwaith uchel
- Moderneiddio telerau ac amodau

**Y Tymor Hir**

Bydd gan y cynnig hwn lawer o fanteision hirdymor sy'n ymwneud â chontract wedi'i foderneiddio gan gynnwys:

- Mae'r diwygio yn mynd i'r afael â heriau hirsefydlog mewn recriwtio, cadw a chynaliadwyedd y gweithlu.
- yn lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â gorflino, morâl gwael, a chyfraddau gadael y gweithlu,
- yn sicrhau system gofal iechyd gwydn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Atal**

Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod meddygon preswyl ar gontract newydd wedi'i foderneiddio sy'n cyd-fynd â dyletswydd ansawdd Llywodraeth Cymru fel y'i nodir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i holl gyrff y GIG sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd. Mae'r cytundeb yn cefnogi hyn drwy ymgorffori mesurau diogelu ar gyfer oriau gwaith diogel, gorfodi cynllunio swyddi strwythuredig, a chyflwyno rôl Gwarcheidwad Gweithio Diogel a Hyblyg i fonitro cydymffurfiad a hyrwyddo lles a lleihau'r risg o gamgymeriadau meddygol a gwella diogelwch cleifion.

**Integreiddio**

Bydd rhoi'r contract wedi'i foderneiddio hwn ar waith yng Nghymru yn cyfrannu at agendâu polisi cyhoeddus ehangach, gan gynnwys cynllunio'r gweithlu, cydraddoldeb iechyd, a datblygu economaidd. Mae'n ategu hefyd nodau'r Rhaglen Llywodraeth ar waith teg, iechyd meddwl, a gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy.

**Cydweithredu**

Cynhaliwyd trafodaethau mewn partneriaeth gymdeithasol â Cyflogwyr GIG Cymru a BMA Cymru Wales. Roedd y broses yn cynnwys rhanddeiliaid lluosog gan gynnwys AaGIC, timau cyllid, timau'r gweithlu a chynghorwyr cyfreithiol, gan sicrhau dull gweithredu cytbwys a chynhwysol. Ar ôl i'r negodiadau ddod i ben, cadarnhaodd Pwyllgor Meddygon Preswyl Cymru ei fod yn dymuno cyflwyno'r contract newydd arfaethedig i'r aelodau. Cynhaliwyd refferendwm yn yr hydref, a chytunodd yr aelodau ar y contract newydd.

**Cyfranogiad**

Cyn negodiadau ffurfiol, roedd meddygon preswyl drwy'r BMA yn cymryd rhan weithgar drwy ddigwyddiadau gwrando, gweithdai a sesiynau adborth. Gwnaeth yr adborth a roddwyd drwy'r arolygon llesiant a boddhad helpu i lywio blaenoriaethau'r diwygio, yn enwedig o ran tegwch cyflogau ac oriau gwaith.

Ymgynghorwyd â chyflogwyr yn eang trwy gyfres o gyfarfodydd gyda Chyfarwyddwyr y Gweithlu, Cyfarwyddwyr Cyllid, Cyfarwyddwyr Meddygol, a thimau'r gweithlu meddygol.

**Effaith**

Disgwylir i ddiwygio contractau gael effaith ar ryw 236 o feddygon a deintyddion preswyl, sef 50% o'r gweithlu meddygol a deintyddol yn GIG Cymru, swm cymharol fach o bobl o'i gymharu â phoblogaeth Cymru. Disgwylir i'r diwygio wneud y canlynol:

- Gwella recriwtio, cadw, cymhelliant ac ymgysylltu ymhlith meddygon preswyl a deintyddion.
- Sicrhau gofal o ansawdd uchel i gleifion, drwy well amodau gwaith.
- Cryfhau enw da GIG Cymru drwy ddatblygu strwythur cyflog teg a blaengar sy'n cyd-fynd â sgiliau a phrofiad.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o fewn systemau cyflog a dilyniant.

**Costau ac Arbedion**

Pwrpas y diwygiad yw sicrhau y bydd meddygon preswyl a deintyddion yng Nghymru ar gontract wedi'i foderneiddio sy'n cyfrannu at nod o arbedion hirdymor drwy lai o drosiant, gwell cynhyrchiant, a gwell canlyniadau iechyd, a chyda'r nod o wneud GIG Cymru yn gyflogwr delfrydol. Caiff cost negodi a rhoi'r contract newydd ei thalu o lefel o fuddsoddiad y cytunwyd arno gydag amlen ariannu o 4% wedi'i neilltuo o gyllideb iechyd bresennol Llywodraeth Cymru. Bydd y gwaith gweithredu a'r costau ar gyfer diwygio yn para dros gyfnod o dair blynedd rhwng Awst 26 ac Awst 28.

**Mecanwaith**

- Nid oes angen deddfwriaeth ar gyfer y cynnig hwn.

## ADRAN 8. CASGLIAD

**8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

Roedd meddygon preswyl a deintyddion yn ymgysylltu'n weithredol â BMA Cymru drwy gydol datblygu'r cynnig drwy ddigwyddiadau gwrando, gweithdai a sesiynau adborth. Gwnaeth eu mewnbwn lywio'r blaenoriaethau diwygio yn uniongyrchol, yn enwedig mewn perthynas â thegwch, oriau gwaith diogel a mesurau diogelwch llesiant. Ymgynghorodd BMA Cymru Wales hefyd â Phwyllgor Meddygon Preswyl Cymru cyn pennu manylion terfynol y contract arfaethedig.

**8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

**Effeithiau cadarnhaol**:

- Gwell recriwtio a chadw meddygon preswyl
- Gwell diogelwch cleifion ac ansawdd gwasanaethau
- Mwy o degwch a thryloywder mewn cyflog a dilyniant
- Gwell aliniad â nodau llesiant: iechyd, cydraddoldeb, cymunedau cydlynol, a gwaith teg

**Effeithiau negyddol**:

- Pwysau ariannol tymor byr posibl ar gyllidebau'r GIG
- Heriau trosiannol wrth roi systemau newydd ar waith

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

I fanteisio i'r eithaf ar y cyfraniad:

- Hyrwyddo'r diwygio fel rhan o strategaeth gwaith teg GIG Cymru
- Monitro gweithrediad i sicrhau canlyniadau teg

- Darparu hyfforddiant ac arweiniad i gefnogi'r broses bontio

Er mwyn lliniaru effeithiau negyddol:

- Graddoli'r gwaith gweithredu i reoli pwysau ariannol
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid yn barhaus i fynd i'r afael â phryderon yn ystod y gweithredu

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Caiff yr effaith ei monitro drwy:

- Data'r gweithlu (recriwtio, cadw, absenoldeb oherwydd salwch)
- Adborth gan feddygon preswyl a rhanddeiliaid
- Adroddiadau gwerthuso ar gerrig milltir allweddol (e.e. gweithredu ar ôl mis Awst 2026)
- Adolygiad blynyddol o ganlyniadau contractiol ac addasiadau yn ôl yr angen